COVID-19 – Canllawiau
Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS)

BWRDD DIOGELU
CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Ebrill 2020

Cyflwyniad

O ganlyniad i haint y COVID-19 a'r cyfyngiadau eglur ar ymweld â chartrefi nyrsio a gofal preswyl ar hyn o bryd, mae Rhanbarth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cytuno ar yr agwedd ganlynol at reoli ceisiadau ac awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Oherwydd y peryglon cysylltiedig â'r haint, cytunwyd ar y cyd nad yw ymweliadau wyneb yn wyneb at ddiben asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn cael eu hystyried yn angenrheidiol ar hyn o bryd oni bai fod pryderon ynghylch diogelu h.y. honiadau o gamdriniaeth a/neu esgeulustod. Mae'r Anrhydeddus Feistr Ustus Hayden (Is-lywydd y Llys Gwarchod) wedi bod yn '**ddiamwys wrth gynghori annog yn gryf rhag ymweld â chartrefi gofal**'.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd fel Cyrff Arolygol a fydd yn defnyddio'u trefniadau arferol ar gyfer blaenoriaethu asesiadau. Fe all y canllawiau hyn newid yng ngoleuni unrhyw ganllawiau pellach o gyfeiriad Llywodraeth Cymru.

Cymhwyso mewn Byrddau Iechyd
Bydd rheoli cyfeirebau DoLS yn y Bwrdd Iechyd yn dilyn y broses isod o ran sylwedd.

- Mae modd ystyried bod cyfeiriadau at gartrefi gofal a thimau rheoli achosion yn cyfeirio at wardiau ysbyty a thimau amlddisgyblaethol (MDT).
- Gofynnir i feddygon ar wardiau roi tystiolaeth o anhwylder y meddwl fel asesiad cyfartal gan Iechyd Meddwl.
- Fel arfer, mae cyfnodau awdurdodi mewn ysbytai'n sylweddol fyrrach na'r rhai mewn cartrefi gofal a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr amserlen ar gyfer unrhyw Awdurdodiadau a roddir dan y trefniadau dros dro hyn.

Mae'r agwedd hon yn berthnasol i'r canlynol:

- Ceisiadau safonol newydd
- Ceisiadau brys (gyda safonol) newydd
- Ceisiadau safonol ychwanegol – awdurdodiad blaenorol am 12 mis
- Ceisiadau safonol ychwanegol – awdurdodiad blaenorol am lai na 12 mis
- Ceisiadau sydd ym mhroses y Llys Gwarchod ar hyn o bryd

Ceisiadau Safonol Newydd (dim awdurdodiad DoLS blaenorol)

1. Casglu gwybodaeth o holl ffynonellau eraill yn ôl y Cod Ymarfer, gan gynnwys cofnodion unrhyw asesiadau blaenorol eraill (gan gynnwys asesiadau cymhwyster ar gyfer yr un penderfyniad neu benderfyniad tebyg).
2. Cadw cyswllt â thimau rheoli gofal a'r gartref gofal i roi cymaint o wybodaeth ag y bo modd ynghylch yr unigolyn a'r amgylchiadau derbyn.
3. Cael trafodaethau gydag aelodau o'r teulu a rhai eraill â diddordeb yn ôl proses arferol asesiadau DoLS.
4. Ceisio defnyddio unrhyw ddulliau eraill sydd ar gael i siarad â "P", e.e. Ffôn / Skype ac ati.

5. Ystyried fel mater o farn broffesiynol a yw'r wybodaeth hon yn caniatáu i ni ddod i benderfyniad i awdurdodi; gan gynnwys tystiolaeth bod cyflwr P yn ddirywiol ac yn annhebygol o wella.
6. Os oes digon o wybodaeth ar gael, byddwn yn awdurdodi cyfyngiadau i'r graddau lleiaf a ystyrir yn angenrheidiol i ddiogelu a, **sut bynnag, hyd at uchafswm o 6 mis**. Os caiff yr awdurdodiad ei roi am gyfnod o 6 mis, **rhaid** cynnal adolygiad ym mis 3. Os caiff y cyfyngiadau ar ymweld â chartrefi gofal eu codi cyn y cyfnod o 3 neu 6 mis, rhaid i ni symud ymlaen gyda'r asesiadau arferol fel mater o frys.
7. Os oes ansicrwydd yn dal yn ôl pwysau tebygolrwydd ynghylch a yw pobl yn brin o alluedd meddyliol a/neu y byddai er eu lles i golli eu rhyddid, bydd cais yn cael ei wneud i'r Llys Gwarchod os yw hynny'n briodol.

Ceisiadau Brys (gyda Safonol) Newydd

1. Ystyried amgylchiadau'r cais brys, gan roi sylw arbennig i unrhyw gyfyngiadau arwyddocaol a gwrthwynebiadau P.
2. Derbyn y bydd y cartref gofal wedi cael awdurdodiad brys am 7 diwrnod yn y ffordd arferol.
3. Casglu gwybodaeth o holl ffynonellau eraill yn ôl y Cod Ymarfer, gan gynnwys cofnodion unrhyw asesiadau blaenorol eraill (gan gynnwys asesiadau cymhwyster ar gyfer yr un penderfyniad neu benderfyniadau tebyg).
4. Cadw cyswllt â'r timau rheoli gofal a'r cartref gofal i roi cymaint o wybodaeth ag y bo modd ynghylch yr unigolyn a'r amgylchiadau derbyn.
5. Cael trafodaethau gydag aelodau o'r teulu a rhai eraill â diddordeb yn ôl proses arferol asesiadau DoLS.
6. Ceisio defnyddio unrhyw ddulliau eraill sydd ar gael i siarad â "P", e.e. Ffôn / Skype ac ati.
7. Ystyried fel mater o farn broffesiynol a yw'r wybodaeth hon yn caniatáu i ni ddod i benderfyniad i awdurdodi; gan gynnwys tystiolaeth bod cyflwr P yn ddirywiol ac yn annhebygol o wella.
8. Os oes digon o wybodaeth ar gael, byddwn yn awdurdodi cyfyngiadau i'r graddau lleiaf a ystyrir yn angenrheidiol i ddiogelu a, **sut bynnag, hyd at uchafswm o 6 mis**. Os caiff yr awdurdodiad ei roi am gyfnod o 6 mis, **rhaid** cynnal adolygiad ym mis 3. Os caiff y cyfyngiadau ar ymweld â chartrefi gofal eu codi cyn y cyfnod o 3 neu 6 mis, rhaid i ni symud ymlaen gyda'r asesiadau arferol fel mater o frys.
9. Os oes ansicrwydd yn dal yn ôl pwysau tebygolrwydd ynghylch a yw pobl yn brin o alluedd meddyliol a/neu y byddai er eu lles i golli eu rhyddid, bydd cais yn cael ei wneud i'r Llys Gwarchod os yw hynny'n briodol.

Ceisiadau safonol ychwanegol – (Awdurdodiad blaenorol am 12 mis)

1. Casglu gwybodaeth o holl ffynonellau eraill yn ôl y Cod Ymarfer, gan gynnwys cofnodion unrhyw asesiadau blaenorol eraill (gan gynnwys asesiadau cymhwyster ar gyfer yr un penderfyniad neu benderfyniadau tebyg).
2. Cadarnhau gyda meddyg adran 12 blaenorol (lle bo modd) bod asesiadau presennol yn dal yn ddilys – gwelwch Ffurflen Ranbarthol Dros Dro 4

3. Cadarnhau gyda'r cartref gofal a'r RPR nad oes unrhyw newid yng nghyflwyniad neu amgylchiadau P. Fe allai'r BIA ddefnyddio asesiadau a ddaeth i ben, ailadrodd y wybodaeth yn y ffurflenni DoLS a chofnodi eu bod wedi cadarnhau dros y ffôn gydag unigolyn penodol yn y lleoliad na newidiodd dim.
4. Cael trafodaethau gydag aelodau o'r teulu a rhai eraill â diddordeb yn ôl proses arferol asesiadau DoLS.
5. Os oes digon o wybodaeth ar gael, byddwn yn awdurdodi cyfyngiadau i'r graddau lleiaf a ystyrir yn angenrheidiol i ddiogelu a, **sut bynnag, hyd at uchafswm o 6 mis**. Os caiff yr awdurdodiad ei roi am gyfnod o 6 mis, **rhaid** cynnal adolygiad ym mis 3. Os caiff y cyfyngiadau ar ymweld â chartrefi gofal eu codi cyn y cyfnod o 3 neu 6 mis, rhaid i ni symud ymlaen gyda'r asesiadau arferol fel mater o frys.
6. Ceisio defnyddio unrhyw ddulliau eraill sydd ar gael i siarad â "P", e.e. Ffôn / Skype ac ati.
7. **Os oes digon o wybodaeth ar gael, bydd SB yn awdurdodi cyfyngiadau i'r graddau lleiaf a ystyrir yn angenrheidiol i ddiogelu (hyd at uchafswm o 12 mis).**
8. Lle bu newidiadau arwyddocaol (fel cynnydd mewn dibyniaeth neu gyfyngiadau) fe allai'r BIA ddal i wneud asesiadau adnewyddu dros y ffôn, gan gofnodi unrhyw wybodaeth newydd arwyddocaol ar Ffurflen 3 (Asesiad Buddiannau Cyfunol) a nodi'r amgylchiadau sydd wedi atal ymweliad.
9. Ystyried fel mater o farn broffesiynol a yw'r wybodaeth hon yn caniatáu i ni ddod i benderfyniad i awdurdodi; gan gynnwys tystiolaeth bod cyflwr P yn ddirywiol ac yn annhebygol o wella.
10. Os yw P nawr yn gwrthwynebu, neu'n gwrthwynebu'n gryfach, dylai'r BIA dynnu sylw at gryfder y gwrthwynebiad ac ystyried cynghori ar gais i'r Llys Gwarchod ar y cyfle cyntaf.
11. Os oes ansicrwydd yn dal yn ôl pwysau tebygolrwydd ynghylch a yw pobl yn brin o alluedd meddyliol a/neu y byddai er eu lles i golli eu rhyddid, bydd cais yn cael ei wneud i'r Llys Gwarchod os yw hynny'n briodol.

Ceisiadau safonol ychwanegol (Awdurdodiad blaenorol am lai na 12 mis)

1. Casglu gwybodaeth o holl ffynonellau eraill yn ôl y Cod Ymarfer, gan gynnwys cofnodion unrhyw asesiadau blaenorol eraill (gan gynnwys asesiadau cymhwyster ar gyfer yr un penderfyniad neu benderfyniadau tebyg).
2. Cadarnhau gyda meddyg adran 12 blaenorol (lle bo modd) bod asesiadau presennol yn dal yn ddilys – gwelwch Ffurflen Ranbarthol Dros Dro 4
3. Cadarnhau gyda'r cartref gofal a'r RPR nad oes unrhyw newid yng nghyflwyniad neu amgylchiadau P. Fe allai'r BIA ddefnyddio asesiadau a ddaeth i ben, ailadrodd y wybodaeth yn y ffurflenni DoLS a chofnodi eu bod wedi cadarnhau dros y ffôn gydag unigolyn penodol yn y lleoliad na newidiodd dim.
4. Cael trafodaethau gydag aelodau o'r teulu a rhai eraill â diddordeb yn ôl proses arferol asesiadau DoLS.
5. Ceisio defnyddio unrhyw ddulliau eraill sydd ar gael i siarad â "P", e.e. Ffôn / Skype ac ati.

6. Lle bu newidiadau arwyddocaol (fel cynnydd mewn dibyniaeth neu gyfyngiadau) fe allai'r BIA ddal i wneud asesiadau adnewyddu dros y ffôn, gan gofnodi unrhyw wybodaeth newydd arwyddocaol ar Ffurflen 3 (Asesiad Buddiannau Cyfunol) a nodi'r amgylchiadau sydd wedi atal ymweliad.
7. Ystyried fel mater o farn broffesiynol a yw'r wybodaeth hon yn caniatáu i ni ddod i benderfyniad i awdurdodi; gan gynnwys tystiolaeth bod cyflwr P yn ddirywiol ac yn annhebygol o wella.
8. Os oes digon o wybodaeth ar gael, bydd SB yn awdurdodi cyfyngiadau am **hyd at uchafswm o 12 mis o ddyddiad yr asesiad Ffurflen 4 blaenorol**.
9. Os yw P nawr yn gwrthwynebu, neu'n gwrthwynebu'n gryfach, dylai'r BIA dynnu sylw at gryfder y gwrthwynebiad ac ystyried cynghori ar gais i'r Llys Gwarchod ar y cyfle cyntaf.
10. Os oes ansicrwydd yn dal yn ôl pwysau tebygolrwydd ynghylch a yw pobl yn brin o alluedd meddyliol a/neu y byddai er eu lles i golli eu rhyddid, bydd cais yn cael ei wneud i'r Llys Gwarchod os yw hynny'n briodol.

Achosion sydd ym Mhroses y Llys Gwarchod ar hyn o bryd

1. Gofyn am gyngor y Llys Gwarchod; gofyn am estyniad cyn cael gorchymyn pellach.
2. Pan fo achos yn hwy na'r cyfnod o 12 mis, byddwn yn dilyn y canllawiau rhanbarthol uchod oni bai fod y Barnwr yn gorchymyn fel arall.

…fel bob amser, mae'n hanfodol peidio â "chuddio" penderfyniadau seiliedig ar adnoddau mewn cysylltiad ag amddifadu o ryddid fel penderfyniadau buddiannau – hyd yn oed ar adeg pan allai adnoddau fod wedi'u hymestyn i'r eithaf. Yn ôl pob tebyg, ni fydd hyn ond yn cynhyrchu heriau adran 21A, fydd yn bwysau ychwanegol ar adnoddau.

Lle bo angen gwyro o arferion neu weithdrefnau arferol (yn ôl y gweithdrefnau ymarferol uchod), mae'n hanfodol bod â threfnau eglur ar gyfer egluro pam y digwyddodd y gwyriadau hyn, sut allent fod wedi effeithio ar yr asesiadau a pha gamau a gymrwyd i liniaru'r effeithiau hynny. Mae'r geiriad awgrymedig isod ar gyfer BIA a llofnodwyr Cyrff Arolygol yn enghraifft dda o hyn. [PANDEMIG COVID-19, MESUR Y CORONAFEIRWS A DEDDF GALLUEDD MEDDYLIOL 2005: a gyhoeddwyd ar 25ain Mawrth 2020]

Adroddiad y BIA: (Ffurflen 3)

"Fe ddigwyddodd yr asesiad hwn ar adeg pan oedd Llywodraeth EM wedi pennu mesurau iechyd y cyhoedd i atal ymlediad y feirws COVID-19. Roedd gweithwyr proffesiynol yn cael eu cynghori i wneud ymweliadau hanfodol yn unig â chartrefi gofal.

Wrth wneud yr asesiad hwn, roeddwn yn gorfod cydbwyso'r angen i ddiogelu hawliau Erthygl 5 X yn erbyn yr angen i warchod rhag trosglwyddo'r feirws i X. Byddai haint COVID-19 wedi achosi perygl difrifol i X o ystyried y cyflyrau iechyd X sy'n bodoli eisoes. O ystyried y pryderon hyn penderfynodd, felly, i seilio fy asesiad ar ddogfennau presennol ac ar sylwadau gofalwyr, teulu a chyfeillion X yn hytrach nag ymweld ag X yn bersonol."

Dogfen Awdurdodiad Corff Arolygol: (Ffurflen 5)

"*Rwy'n sylwi bod y BIA wedi penderfynu peidio ag asesu X wyneb yn wyneb o ystyried perygl trosglwyddo COVID-19. Rwy'n cytuno mai dyma'r ffordd orau o hyrwyddo hawliau Erthygl 5 X wrth warchod X rhag salwch difrifol. Bydd yr awdurdodiad hwn yn cael ei adolygu pan ddaw'r cyfyngiadau iechyd y cyhoedd i ben*."

Cytunwyd ar y geiriad uchod gan Bartneriaeth DoLS Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Atodiad A – Cyswllt Rhanbarthol ar gyfer Awdurdodau Rheoli

Defnyddiwch logo eich sefydliad unigol ar bob llythyr hefyd

Diweddariad gwybodaeth bwysig i Awdurdodau Rheoli mewn cysylltiad â Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ystod pandemig COVID-19

Yn ystod pandemig y COVID-19; fel corff arolygol roeddem eisiau cysylltu â chi i'ch diweddaru ynghylch ein blaenoriaethau fel y mae pethau ar 2il Ebrill 2020. Rydym yn aros am ragor o ganllawiau'r Llywodraeth ac fe fyddwn yn eich diweddaru pan ddaw hyn i law.

Mae'n bwysig dal i gadw at egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol a DoLS ac mae angen i ni edrych ar atebion yn greadigol i leihau perygl gosod mwy o gyfyngiadau nag sydd eu hangen. Mae angen i ni sicrhau fod P yn aros wrth galon ein penderfyniadau ac mae cynnal egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol yn dal yn bwysig yn y gwaith a wnawn.

Mae asesiadau wyneb yn wyneb arferol i gael eu cyfyngu yn ystod y cyfnod hwn; bydd asesiadau'n cael eu clustnodi i'w gwblhau'n unig ar gyfer yr achosion hynny lle mae asesu'n cael ei ystyried yn angenrheidiol a chymesur. Achosion blaenoriaeth uchel yw'r rhai lle mae'r preswylydd yn gwrthwynebu'r trefniadau'n egnïol sy'n peri colli rhyddid. Er enghraifft, mae preswylydd yn mynegi dymuniad i ymadael; mae ataliad corfforol sylweddol yn cael ei ddefnyddio neu mae pryderon ynghylch diogelu. Rhaid i holl geisiadau i'r tîm gynnwys holl gyfyngiadau'n fanwl ar gyfer brysbennu.

Oherwydd yr amgylchiadau, bydd cyfnodau awdurdodi'n 6 mis ar y mwyaf yn ystod y cyfnod hwn gyda'r nod o adolygu unwaith y daw cyfyngiadau'r Llywodraeth i ben.

Fel awdurdod rheoli, rhaid i chi bwyso a mesur gofynion unrhyw ymweliad; anogir yn gryf defnyddio technoleg i gadw cysylltiad â rhwydwaith cefnogi P, h.y. galwadau ffôn a fideo. Rhaid cwblhau holl asesiadau galluoedd meddyliol, penderfyniadau buddiannau gorau ac asesiadau risg lle bo gofyn; ni ddisodlwyd egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a rhaid dal i gadw atynt.

Gyda deddfwriaeth DoLS yn dal i fod yn berthnasol; mae sut fyddwn yn asesu'n newid. Bydd arnom angen eich cymorth wrth gasglu gwybodaeth am y preswylwyr a'u rhwydweithiau cefnogi yn ogystal â diagnosis sydd ar gael. Ble bynnag y bo modd bydd gofyn i dystiolaeth gael ei hanfon yn ddigidol i ategu asesiadau.

Rydym yn deall bod pwysau gwaith yn cynyddu ac y bydd sefyllfaoedd pan fo staff yn brin; rydym yn gwerthfawrogi eich holl waith.

Sylwch fod dyletswydd i hysbysu unrhyw bryderon ynghylch diogelu'n aros, gan ddilyn y llwybrau arferol.

Bydd y tîm DoLS yn dal i fod y cyswllt cyntaf am gyngor ar holl faterion yn ymwneud ag awdurdodiadau DoLS newydd a phresennol. Cofiwch gysylltu â ni ar rif ffôn neu gyfeiriad e-bost DoLS lleol.

Atodiad B – Ffurflen 3a a 4 meddyg Dros dro COVID-19

Rhowch logo eich sefydliad hefyd

Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru

ffurflen 3a/4DoLS Dros Dro

I'w llenwi gan y Meddyg Adran 12 (Llenwch ran A neu B)

Nod Adnabod yr Unigolyn / Achos:			
FFURFLEN 3a/4 DROS DRO TREFNIADAU DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID **ASESIADAU GALLUEDD MEDDYLIOL, IECHYD MEDDWL A HAWL**			
Mae'r ffurflen hon yn cael ei llenwi mewn cysylltiad â'r sefyllfa bresennol gyda'r COVID-19 a'r gwaharddiad ar ymweliadau â chartrefi gofal / wardiau ysbyty			
Enw llawn gwrthrych yr asesiad			
Dyddiad geni		Oed yn Fras	
Enw'r cartref gofal neu ysbyty lle mae'r unigolyn yn colli, neu y gallai golli, rhyddid			
A. NODWCH ISOD EICH BOD WEDI ADOLYGU'R ASESIADAU PRESENNOL ISOD A CHADARNHAU NAD OES UNRHYW NEWIDIADAU YN AMGYLCHIADAU'R UNIGOLYN.			
Galluedd Meddyliol		Iechyd Meddwl		Hawl	
ENW'R MEDDYG:	DYDDIAD ASESIADAU GWREIDDIOL		
SYLWADAU'R MEDDYG AR YR ADOLYGIAD:			
DYDDIAD YR ADOLYGIAD:			
AR ÔL ADOLYGU RWY'N CADARNHAU FY MOD YN ARGYMELL AWDURDODIAD PELLACH AM GYFNOD HYD AT 6 MIS	YDW	NAC YDW	

Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru

ffurflen 3a/4DoLS Dros Dro

B. NODWCH ISOD EICH BOD WEDI ADOLYGU'R ASESIADAU PRESENNOL ISOD A CHADARNHAU <u>BOD</u> NEWIDIADAU YN AMGYLCHIADAU'R UNIGOLYN SY'N CAEL EU HADLEWYRCHU YN Y SYLWADAU ISOD.					
Galluedd Meddyliol*		Iechyd Meddwl		Hawl	
ENW'R MEDDYG:			DYDDIAD ASESIADAU GWREIDDIOL		
SYLWADAU'R MEDDYG AR YR ADOLYGIAD:					
AR ÔL ADOLYGU RWY'N CADARNHAU FY MOD YN ARGYMELL AWDURDODIAD PELLACH AM GYFNOD HYD AT 6 MIS				YDW	NAC YDW

Bydd angen i lofnodwr pob Corff Arolygol benderfynu a fydd yn awdurdodi'r colli rhyddid ar sail y wybodaeth uchod ac unrhyw wybodaeth arall a gasglwyd fel rhan o'r trefniadau dros dro. Bydd hyn yn cael ei fanylu yn Ffurflen 5 DoLS.

3ydd Ebrill 2020

Atodiad C – Cyswllt Rhanbarthol i RPR Cyflogedig

Defnyddiwch logo eich sefydliad unigol ar bob llythyr hefyd

Diweddariad Gwybodaeth Bwysig i RPR Cyflogedig

mewn cysylltiad â

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ystod Pandemig y COVID-19

Yn ystod pandemig y Covid-19, roeddem eisiau cysylltu â chi fel corff arolygol i'ch diweddaru ynghylch ein blaenoriaethau fel y mae pethau ar 2il Ebrill 2020. Rydym yn aros am ragor o ganllawiau'r Llywodraeth ac fe fyddwn yn eich diweddaru eto pan ddaw hyn i law.

Mae'n bwysig dal i gadw at egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol a DoLS ac mae angen i ni edrych ar atebion yn greadigol i leihau perygl gosod mwy o gyfyngiadau nag sydd eu hangen. Mae angen i ni sicrhau fod P yn aros wrth galon ein penderfyniadau ac mae cynnal egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol yn dal yn bwysig yn y gwaith a wnawn.

Mae asesiadau wyneb yn wyneb arferol i gael eu cyfyngu yn ystod y cyfnod hwn; bydd asesiadau'n cael eu clustnodi i'w gwblhau'n unig ar gyfer yr achosion hynny lle mae asesu'n cael ei ystyried yn angenrheidiol a chymesur. Achosion blaenoriaeth uchel yw'r rhai lle mae'r preswylydd yn gwrthwynebu'r trefniadau'n egnïol sy'n peri colli rhyddid. Er enghraifft, mae preswylydd yn mynegi dymuniad i ymadael; mae ataliad corfforol sylweddol yn cael ei ddefnyddio neu mae pryderon ynghylch diogelu.

Rhaid i gynrychiolwyr unigolion perthnasol bwyso a mesur gofynion unrhyw ymweliad; byddai defnyddio galwadau ffôn a fideo'n cael ei annog ar gyfer dyletswyddau arolygu. Fe all preswylwyr sydd mewn perygl mawr ofyn mwy o sylw; mae'n bwysig na chaiff unrhyw heriau adran 21A eu gohirio yn ystod y cyfnod hwn ond y cânt eu cyfeirio yn ôl proses ddeddfwriaethol i gynnal hawliau dynol P.

Sylwch fod dyletswydd i hysbysu unrhyw bryderon ynghylch diogelu'n aros, gan ddilyn y llwybrau arferol.

Bydd y tîm DoLS yn dal i fod y cyswllt cyntaf am gyngor ar holl faterion yn ymwneud ag awdurdodiadau DoLS newydd a phresennol. Cofiwch gysylltu â ni ar rif ffôn neu gyfeiriad e-bost DoLS lleol.

Atodiad C – Cyswllt Rhanbarthol i RPR Anghyflogedig

Defnyddiwch logo eich sefydliad unigol ar bob llythyr hefyd

Diweddariad Gwybodaeth Bwysig i RPR Anghyflogedig

mewn cysylltiad â

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn ystod Pandemig y COVID-19

Yn ystod pandemig y Covid-19, roeddem eisiau cysylltu â chi fel corff arolygol i'ch diweddaru ynghylch ein blaenoriaethau fel y mae pethau ar 2il Ebrill 2020. Rydym yn aros am ragor o ganllawiau'r Llywodraeth ac fe fyddwn yn eich diweddaru eto pan ddaw hyn i law.

Mae angen i ni sicrhau fod **NAME** yn aros wrth galon ein penderfyniadau ac mae cynnal egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol yn dal yn bwysig yn y gwaith a wnawn.

Wrth gwrs, bydd ymweliadau wyneb yn wyneb â **NAME** yn gyfyngedig. Fel cynrychiolydd yr unigolion perthnasol rhaid i chi bwyso a mesur gofynion unrhyw ymweliad; byddai defnyddio galwadau ffôn a fideo'n cael ei annog ar gyfer dyletswyddau arolygu. Mae'n bwysig na chaiff unrhyw heriau adran 21A eu gohirio yn ystod y cyfnod hwn ond y cânt eu cyfeirio yn ôl proses ddeddfwriaethol i gynnal hawliau dynol **NAME**. Cysylltwch â'r tîm os ydych yn credu bod angen herio'r DoLS ac os ydych eisiau cymorth Eiriolwr Annibynnol o ran Galluoedd Meddyliol i symud hyn ymlaen.

Bydd y tîm DoLS yn dal i fod y cyswllt cyntaf am gyngor ar holl faterion yn ymwneud ag awdurdodiadau DoLS newydd a phresennol. Cofiwch gysylltu â ni ar rif ffôn neu gyfeiriad e-bost DoLS lleol os byddwch eisiau trafod unrhyw beth.